OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1468 (Cy. 139)

# CYFLOGAETH A HYFFORDDIANT, CYMRU

## Rheoliadau Prentisiaethau (Amodau Cwblhau Cymreig Amgen) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *11 Mehefin 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *23 Mehefin 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 2(5) a 262(3) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Yn unol ag adran 262(10) o'r Ddeddf honno, cafodd drafft o'r offeryn hwn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Prentisiaethau (Amodau Cwblhau Cymreig Amgen) 2013 a deuant i rym ar 23 Mehefin 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Yr amodau cwblhau Cymreig amgen

**2.** Yr amodau cwblhau Cymreig amgen yw'r amodau a bennir yn rheoliad 3 neu 4.

**3.** Dyma'r amodau—

(a) bod person ("X") yn gweithio fel person hunangyflogedig mewn cysylltiad â fframwaith prentisiaeth Cymreig cydnabyddedig; a

(b) bod X yn bodloni'r gofynion a bennir yn y fframwaith hwnnw at y diben o ddyroddi tystysgrif brentisiaeth.

**4.**—(1) Dyma'r amodau—

(a) bod person ("Y") wedi ymrwymo i gytundeb prentisiaeth mewn cysylltiad â fframwaith prentisiaeth Cymreig cydnabyddedig;

(b) bod Y wedi dechrau ar gwrs hyfforddi ar gyfer y cymhwyster cymwyseddau a nodir yn y fframwaith hwnnw;

(c) bod Y yn gweithio o dan y cytundeb prentisiaeth drwy gydol cyfnod cyntaf y cwrs;

(**1**) 2009 p. 22.

(d) bod Y wedi cael ei ddiswyddo o ganlyniad i ddileu swydd cyn cwblhau'r cwrs;

(e) bod Y wedi cwblhau'r cwrs cyn pen 6 mis ar ôl dyddiad diswyddiad o'r fath;

(f) bod Y yn gweithio neu yn mynychu canolfan hyfforddiant galwedigaethol gydnabyddedig, mewn cysylltiad â'r fframwaith hwnnw drwy gydol ail gyfnod y cwrs; ac

(g) bod Y yn bodloni'r gofynion a bennir yn y fframwaith hwnnw at y diben o ddyroddi tystysgrif brentisiaeth.

(2) Ym mharagraff (1)—

(a) mae'r cyfeiriad at gyfnod cyntaf y cwrs yn gyfeiriad at y cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod y dechreuodd y cwrs hyfforddi y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(b) ac sy'n dod i ben ar y dyddiad diswyddo;

(b) mae'r cyfeiriad at ail gyfnod y cwrs yn gyfeiriad at y cyfnod sy'n dechrau drannoeth y dyddiad diswyddo ac sy'n dod i ben ar y diwrnod y cwblhawyd y cwrs hyfforddi.

*Jef Cuthbert*
O dan awdurdod y Gweinidog Addysg a Sgiliau,
un o Weinidogion Cymru

11 Mehefin 2013

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau pan na fo person wedi ymrwymo i gytundeb prentisiaeth ond ei fod yn gweithio o dan drefniadau gweithio amgen, drwy bennu amodau cwblhau Cymreig amgen a fydd yn rhoi'r hawl iddo gael tystysgrif brentisiaeth. Maent yn gymwys mewn achosion pan fo person yn gweithio fel person hunangyflogedig; a phan fo person wedi ei ddiswyddo oherwydd bod y swydd wedi ei dileu, er mwyn bod y person hwnnw yn gallu cwblhau'r brentisiaeth cyn pen 6 mis ar ôl dyddiad dileu'r swydd.